COMISIWN ELUSENNAU

FFURFLEN FLYNYDDOL 2007

NODIADAU CANLLAW

CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD	**3**
Diogelu data	**4**
RHAN A – GWYBODAETH AM YR ELUSEN	
A1 – Blwyddyn ariannol	**5**
A2 – Incwm a gwariant	**5**
A3 – Cyswllt yr elusen	**6**
A3a – Cyswllt unigolyn newydd neu ddiwygiedig yr elusen	**7**
A3b – Cyswllt sefydliad newydd neu ddiwygiedig yr elusen	**8**
A4 – Ymddiriedolwr corfforedig	**8**
A4a – Ymddiriedolwr corfforedig newydd neu ddiwygiedig	**8**
A5 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr cyfredol	**8**
A6 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd	**10**
A7 – Ardal gweithredu	**11**
A8 – Dosbarthu elusennau	**14**
A9 – Gweithgareddau elusennau	**14**
A10 & A11 – Cyfeiriadau e-bost yr elusen	**15**
A12 – Gwefan yr elusen	**15**
A13 – Prif gyfrif banc/cymdeithas adeiladu yr elusen	**15**
RHAN B – GWYBODAETH ARIANNOL	
B1 – Adnoddau	**16**
B2 – Asedau a rhwymedigaethau	**20**
B3 – Gweithwyr cyflogedig	**23**
B4 – Gwirfoddolwyr	**23**
ADRODD AM DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL	**24**
NODIADAU	**31**

CYFLWYNIAD

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar sut i gwblhau cwestiynau yn Ffurflen Flynyddol 2007 ac mae'n diffinio'r termau penodol a ddefnyddir yn y ffurflen. Mae'r ffurflen y gofynnoch amdani ar gyfer elusennau gydag incwm yn 2007 sy'n fwy na £500,000.

Cwblhewch y ffurflen gan ddefnyddio **inc du** a'i dychwelyd i'r Comisiwn Elusennau yn yr amlen ymateb cyn gynted â phosibl a chyn y dyddiad cau ar gyfer ei chyflwyno a ddangosir ar flaen y ffurflen. Os yw diwedd eich blwyddyn ariannol yn Adran A1 wedi newid, rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflen cyn pen deg mis o'r diwedd blwyddyn ariannol newydd.

Mae adrannau ar y ffurflen lle rydym yn argraffu data sydd gennym ar hyn o bryd wedi'u marcio â saeth fach las, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

Manylion cyfredol

→ E-bost cyhoeddus © **www.acharity.co.uk**

Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau mewn llawysgrifen i'r data rhagargraffedig ar y ffurflen oherwydd ni fyddwn yn eu prosesu.

Dylech nodi unrhyw newidiadau i'r data sydd gennym ar hyn o bryd neu roi gwybodaeth newydd yn y blychau gwyn. Nodir y rhain gyda saeth fwy, fel yn yr enghraifft isod.

Incwm gros © → £

Cyfanswm gwariant © → £

Pa gyfnod ariannol ydy'r ffurflen yn cyfeirio ato?

Dylech gwblhau'r ffurflen ar gyfer cyfnodau ariannol a ddaeth i ben yn 2007. Os yw'r elusen wedi newid ei diwedd blwyddyn ariannol ac, o ganlyniad, ni fydd ganddi gyfnod ariannol sy'n dod i ben yn 2007, nid oes rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon. Yn lle hynny, dylech ffonio'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 300 0218 a rhoi manylion i ni am eich diwedd blwyddyn ariannol newydd.

Os yw'r elusen wedi newid ei diwedd blwyddyn ariannol ac, o ganlyniad, bydd dau gyfnod ariannol ganddi yn dod i ben yn 2007, mae angen i chi gwblhau'r ffurflen hon ar gyfer y cyntaf o'r cyfnodau ariannol hynny yn unig. Fodd bynnag, rhaid i chi gyflwyno cyfrifon ar gyfer y ddau gyfnod.

Pryd ydw i'n cyflwyno'r ffurflen?

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob elusen sydd ag incwm gros o fwy na £10,000 i ddarparu'r Ffurflen Flynyddol a'r cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau cyn pen deg mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol.

Bydd y cyfnod deg mis ar ôl dyddiad arbennig bob amser yn gorffen ar yr un dyddiad yn y mis priodol. Mae hyn yn golygu bod gan elusen gyda diwedd blwyddyn ariannol ar 30 Medi tan hanner nos ar 30 Gorffennaf y flwyddyn ganlynol i gyflwyno ei Ffurflen Flynyddol a chyfrifon, nid 31 Gorffennaf.

Os nad oes unrhyw ddyddiad cyfatebol, bydd diwrnod olaf y mis yn gymwys. Er enghraifft, bydd gan elusen sydd â diwedd blwyddyn ariannol ar 30 Ebrill tan hanner nos ar 28/29 Chwefror y flwyddyn ganlynol i gyflwyno ei dogfennau.

Mae adroddiadau blynyddol a chyfrifon ymddiriedolwyr yn ffordd bwysig o arddangos gweithgareddau elusennau i'r rhai sy'n eu cyllido a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gall anfon eich dogfennau atom cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd eich blwyddyn ariannol eich helpu i gael cyllid.

I'r rhai sy'n methu â chydymffurfio, bydd cofnod yn ymddangos ar y Gofrestr Elusennau yn dangos bod yr elusen heb weithredu. Gall hyn effeithio ar gyfraniadau a chronfeydd o ffynonellau eraill.

Sut ydw i'n dychwelyd fy ffurflen?

Dylech ddychwelyd eich Ffurflen Flynyddol a chyfrifon yn yr amlen a ddarparwyd. Nid yw'r amlen a ddarparwyd y flwyddyn hon yn amlen radbost a bydd rhaid i chi dalu'r tâl post cywir pan fyddwch yn ei dychwelyd. Os ydych yn colli'r amlen, anfonwch y dogfennau i'r cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Elusennau, Blwch SP 1268, Lerpwl, L69 3AR

Diogelu data

Bydd unrhyw wybodaeth a rowch i ni yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn unol â'r rheolau ar ddiogelu data. Byddwn yn trin manylion personol fel manylion preifat a chyfrinachol ac yn eu diogelu. Ni fyddwn yn eu datgelu i unrhyw un sydd heb gysylltiad â'r Comisiwn Elusennau oni bai eich bod chi wedi rhoi eich cydsyniad i'w rhyddhau, neu mewn amgylchiadau arbennig lle:

- mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny;
- mae angen eu datgelu er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol yn briodol;
- mae angen eu datgelu er mwyn cydymffurfio â'n swyddogaeth fel y rheolydd elusennau ac mae er budd y cyhoedd i wneud hynny.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad a wnaed at y diben hwn yn gyfatebol, yn ystyried eich hawl i breifatrwydd ac yn cael ei drin mewn ffordd deg a chyfreithlon yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data y Ddeddf Diogelu Data.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rheoleiddio'r defnydd o 'ddata personol' sydd yn ei hanfod yn unrhyw wybodaeth, naill ai wedi'i chadw ar gyfrifiadur neu ffeiliau papur, am unigolion byw adnabyddadwy. Fel 'rheolydd data' o dan y Ddeddf, rhaid i ni gydymffurfio â'i gofynion.

RHAN A – GWYBODAETH AM YR ELUSEN

A1 – Blwyddyn ariannol

Bydd manylion eich blwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y data a gedwir ar hyn o bryd, yn cael eu rhagargraffu yma. Fel rheol dylai'r flwyddyn ariannol hon bara 12 mis ond, o dan rai amgylchiadau, gall fod yn fyrrach neu'n hwy. I elusennau anghorfforedig, gall amrywio o 6 mis i 18 mis. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i elusennau sy'n gwmnïau.

Os yw'r wybodaeth sydd wedi'i rhagargraffu yn anghywir, neu os hoffech newid y flwyddyn ariannol, defnyddiwch y blychau o dan 'Manylion diwygiedig' a nodwch y dyddiadau yn y fformat dd/mm/bbbb, er enghraifft 31/03/2007.

Os nad yw unrhyw ddyddiadau wedi'u rhagargraffu ar y ffurflen, nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth blwyddyn ariannol ar hyn o bryd ar gyfer eich elusen a rhaid i chi gwblhau adran A1 drwy gadarnhau dyddiadau'r flwyddyn ariannol o dan 'Manylion diwygiedig'.

A2 – Incwm a gwariant

Nodwch incwm gros a chyfanswm gwariant yr elusen yn y blychau a ddarperir. Talgrynnwch yr holl ffigurau i'r bunt agosaf a pheidiwch â chynnwys gwahanwyr (comas). Dylai'r ffigurau gael eu fformatio fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

Incwm gros ©	→ £	6 0 0 0 0 0
Cyfanswm gwariant ©	→ £	5 0 0 0 0 0

Mae'r incwm a'r gwariant yn seiliedig ar y ffigurau yng nghyfrifon yr elusen am y flwyddyn ariannol a ddangosir yn A1. Bydd y diffiniadau isod yn dweud wrthych beth i'w gynnwys a beth i'w hepgor.

Diffiniad o incwm gros

Cyfanswm incwm cofnodedig yr elusen yw hwn ym mhob cronfa incwm anghyfyngedig a chyfyngedig, ond nid adnoddau a dderbyniwyd fel cronfeydd cyfalaf (gwaddol), nac enillion cyfalaf mewn cronfa incwm.

Dylech gyfrifo incwm cyn didynnu unrhyw gostau neu dreuliau. Dylai'r cyfrifiad incwm **gynnwys**:

- incwm gwirfoddol o gyfraniadau (gan gynnwys unrhyw adenillion treth rhodd cymorth cysylltiedig), grantiau, rhoddion a chymynroddion (gweler **Nodyn 1** isod);
- enillion gros o godi arian a gweithgareddau masnachu eraill a wnaed i gynhyrchu cronfeydd;
- incwm o fuddsoddiadau (gan gynnwys llog, difidendau, adenillion treth cysylltiedig a rhenti);
- enillion gros o werthu nwyddau neu wasanaethau er mwyn hyrwyddo amcanion yr elusen; a
- swm unrhyw waddol treuliadwy a wariwyd neu a drosglwyddwyd i gronfeydd incwm ac, os yw'r elusen yn gweithredu dull cyfanswm adenillion at fuddsoddi cronfeydd cyfalaf, swm unrhyw gyfanswm adenillion heb eu defnyddio neu eu trosglwyddo i gronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn (gweler **Nodyn 2** isod).

Ni ddylai'r cyfrifiad gynnwys y canlynol yn yr incwm:

- derbyn benthyciad gan yr elusen;
- ad-daliadau benthyciad i'r elusen;
- derbyniadau, enillion neu elw ar werthu neu waredu buddsoddiadau ac asedau sefydlog swyddogaethol; ac
- enillion actiwaraidd ar unrhyw gynllun pensiwn budd diffiniedig.

Nodyn 1: Mae unrhyw roddion neu gyfraniadau y mae'r rhoddwr yn disgwyl y bydd neu y gall yr elusen eu cadw i'w buddsoddi neu i'w defnyddio'n gyfredol yn gyfalaf (gwaddol), ac ni ddylid eu cynnwys.

Nodyn 2: Bydd unrhyw ddyraniad o gyfanswm adenillion heb ei ddefnyddio yn effeithio ar elusennau gwaddol yn unig sydd wedi cael archeb cydsyniad gan y Comisiwn Elusennau i weithredu dull cyfanswm adenillion at fuddsoddiadau.

Diffiniad o gyfanswm gwariant

Dylech roi'r gwariant gros ym mhob cronfa gan gynnwys cyfalaf (gwaddol).

Dylech **gynnwys** yn y gwariant:

- costau cynhyrchu cronfeydd, gan gynnwys codi arian, gweithgareddau masnachu, costau eiddo buddsoddi a ffioedd rheoli buddsoddiadau;
- gwariant elusennol er mwyn hyrwyddo amcanion yr elusen gan gynnwys:
  - grantiau a chyfraniadau sy'n daladwy;
  - costau cymorth; a
  - chostau llywodraethu, rheoli a gweinyddu'r elusen.

Ni ddylech gynnwys y canlynol yn y gwariant:

- rhoi benthyciad;
- ad-dalu benthyciad;
- prynu buddsoddiadau ac asedau sefydlog swyddogaethol;
- colledion ar waredu buddsoddiadau ac asedau sefydlog swyddogaethol; a
- cholledion actiwaraidd ar unrhyw gynllun pensiwn budd diffiniedig.

A3 – Cyswllt yr elusen

Bydd y rhan hon yn dangos y manylion cyswllt cyfredol sydd gennym ar gyfer eich elusen. Mae'r cyswllt elusen wedi'i gofnodi ar y Gofrestr Elusennau fel y man cyswllt ar gyfer y cyhoedd. Mae ei enw a'i gyfeiriad i'w weld ar ein gwefan a byddwn yn eu defnyddio i gysylltu â'r elusen.

Mae dau fath o gyswllt: cyswllt unigolyn a chyswllt sefydliad. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhain wedi'i nodi isod.

Os yw'r manylion rhagargraffedig yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os hoffech roi gwybod i ni am gyswllt newydd, defnyddiwch adran A3a ar gyfer cyswllt unigolyn neu A3b ar gyfer cyswllt sefydliad. Peidiwch â rhoi cyswllt unigolyn a chyswllt sefydliad.

Cyswllt unigolyn

Mae cyswllt unigolyn yn rhywun a enwir. Gall fod yn un o'r ymddiriedolwyr elusen, megis y cadeirydd, neu gall fod yn rhywun sy'n gweithredu ar ran yr elusen ond nid yw'n ymddiriedolwr. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar y Gofrestr Elusennau, felly dylai fod yn rhywun sydd â gwybodaeth ymarferol dda o'r elusen ac sy'n gallu ateb ymholiadau gan y cyhoedd.

Ar gyfer cyswllt unigolyn, rhaid i ni gael ei enw llawn, a'r cyfeiriad post. Nid oes rhaid i'r cyfeiriad post fod ei gyfeiriad gartref; gallai fod yn gyfeiriad yr elusen os oes un ganddi. Dylai fod yn rhywle lle mae'r post yn cael ei chodi'n gyson ac mae'n hawdd ei dderbyn.

Cyswllt sefydliad

Os nad yw'r elusen yn dymuno cael unigolyn a enwir fel ei chyswllt, gall ddefnyddio sefydliad. Gallai fod yn gwmni o gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran yr elusen, neu'r elusen ei hun yng nghyfeiriad yr elusen os oes un ganddi. Ar gyfer cyswllt sefydliad rhaid i ni gael enw, cyfeiriad post llawn a chod post y sefydliad.

Mae'r cyfeiriad cyswllt i'w weld ar y Gofrestr Elusennau a gall y cyhoedd ei ddefnyddio i gysylltu â'r elusen, felly dylai fod modd i'r sefydliad ateb ymholiadau cyffredinol am yr elusen, neu o leiaf gyfeirio ymholiadau i'r unigolyn cywir.

A3a – Cyswllt unigolyn newydd neu ddiwygiedig yr elusen

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion presennol, neu roi manylion i ni am gyswllt unigolyn newydd. Os ydych yn newid manylion, neu'n rhoi gwybod i ni am unigolyn newydd, rhowch set lawn o fanylion ar gyfer yr unigolyn hwnnw ac nid dim ond yr wybodaeth sy'n eisiau. Bydd yn cynnwys:

- ei holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- ei enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- ei ddyddiad geni;
- ei gyfeiriad llawn a chod post.

Os dymunwch, gallwch hefyd roi rhif ffôn a rhif ffacs yn ogystal â nodi ôl-ddodiad i'r enw i gofnodi unrhyw anrhydedd yr hoffai'r unigolyn ei ddefnyddio ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd mae cyfle gennych nodi enw o ddewis ar gyfer y cyswllt, er enghraifft, Bob Clarkin yn lle Mr Robert James Clarkin. Dyma fydd yr enw sydd i'w weld ar y Gofrestr Elusennau ac ar gyfer gohebu â'r elusen, fel arall defnyddir manylion yr enw llawn.

Os oes unigolyn a enwir gennych ar hyn o bryd fel cyswllt yr elusen, ond byddai'n well gennych ddefnyddio sefydliad yn lle hynny, dylech ddefnyddio adran A3b i roi manylion am y cyswllt sefydliad newydd.

A3b – Cyswllt sefydliad newydd neu ddiwygiedig yr elusen

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion presennol, neu roi manylion i ni am gyswllt sefydliad newydd. Os ydych yn newid manylion neu'n rhoi gwybod i ni am sefydliad newydd, bydd angen set lawn o fanylion ar gyfer y sefydliad hwnnw, sy'n cynnwys enw, cyfeiriad llawn a chod post y sefydliad.

Hefyd, gallwch ychwanegu rhif ffôn a rhif ffacs ar gyfer y sefydliad, os ydynt ar gael.

Os yw sefydliad yn gyswllt yr elusen ar hyn o bryd, ond byddai'n well gennych ddefnyddio unigolyn a enwir yn lle hynny, dylech ddefnyddio adran A3a i roi manylion am y cyswllt unigolyn newydd.

A4 – Ymddiriedolwr corfforedig

Bydd manylion wedi'u rhagargraffu yn y rhan hon dim ond os gwyddwn fod ymddiriedolwr corfforedig gan yr elusen, ee cyngor plwyf neu Ymddiriedolaeth GIG. Gwnewch yn siŵr bod enw, cyfeiriad, manylion ffôn ac e-bost yr ymddiriedolwr corfforedig yn gywir.

Os ydynt yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os yw'r adran hon yn wag ac mae ymddiriedolwr corfforedig gan eich elusen, rhowch y manylion cywir yn llawn o dan adran A4a, 'Ymddiriedolwr corfforedig newydd neu ddiwygiedig'.

Os nad ydych yn siŵr a oes ymddiriedolwr corfforedig gan eich elusen neu beidio, edrychwch ar ei dogfen lywodraethol. Bydd ymddiriedolwr corfforedig neu ymddiriedolwyr unigol gan y rhan fwyaf o elusennau, nid y ddau.

A4a – Ymddiriedolwr corfforedig newydd neu ddiwygiedig

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion presennol neu roi manylion i ni am ymddiriedolwr corfforedig newydd. Os ydych yn newid manylion, neu'n rhoi gwybod i ni am ymddiriedolwr corfforedig newydd, bydd angen set lawn o fanylion arnom, sy'n cynnwys:

- enw'r ymddiriedolwr corfforedig;
- cyfeiriad llawn a chod post yr ymddiriedolwr corfforedig.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol cael rhif ffôn a chyfeiriad e-bost os ydynt ar gael. Sylwch bydd enw'r ymddiriedolwr corfforedig i'w weld ar ein gwefan, ond ni fydd unrhyw gyfeiriad, manylion ffôn neu e-bost ar gael i'r cyhoedd.

Os oes gan eich elusen fwy nag un ymddiriedolwr corfforedig, atodwch lythyr esboniadol i'r ffurflen gan nodi enw a chyfeiriad llawn pob ymddiriedolwr corfforedig, neu defnyddiwch ein gwasanaethau ar-lein i wirio a newid y manylion hyn.

A5 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr cyfredol

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion yr ymddiriedolwyr unigol sydd wedi'u cofnodi ar hyn o bryd ar y Gofrestr Elusennau. Mae angen manylion ymddiriedolwyr sy'n gweithredu adeg cwblhau'r ffurflen ac nid ar ddiwedd blwyddyn ariannol yr elusen o anghenraid. Dylid nodi ymddiriedolwyr newydd (neu ymddiriedolwyr a fu'n gweithredu am beth amser ond sydd heb eu rhestru) yn A6 'Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd'.

Os nad yw unigolyn a restrir yn gweithredu fel ymddiriedolwr mwyach, rhowch groes yn y blwch 'Ddim yn ymddiriedolwr mwyach' a byddwn yn ei ddileu o'n cofnodion.

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen, beth bynnag fo'u teitl. Er enghraifft, yn achos cymdeithas anghorfforedig, y pwyllgor gwaith neu'r pwyllgor rheoli yw ei hymddiriedolwyr fel rheol, gan gynnwys y swyddogion mygedol a holl aelodau eraill y pwyllgor sy'n gallu pleidleisio. Yn achos cwmni elusennol, y cyfarwyddwyr yw'r ymddiriedolwyr fel arfer.

Os yw unigolion yn ymddiriedolwyr eich elusen, bydd y manylion sydd gennym ar hyn o bryd wedi'u rhagargraffu ar y ffurflen. Sylwch os na chawsom set lawn o fanylion ar gyfer ymddiriedolwr yn y gorffennol, mae'n bosibl nad yw ei fanylion wedi cael eu hychwanegu at ein cronfa ddata, ac ni fyddant i'w gweld. Os yw unrhyw ran o enw neu gyfeiriad ymddiriedolwr yn anghywir neu'n anghyflawn, rhowch y manylion cywir eto o dan 'Manylion diwygiedig' yn hytrach na'r wybodaeth anghywir neu'r wybodaeth sy'n eisiau yn unig. Mae set lawn o fanylion yn cynnwys:

- ei holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- ei enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- ei ddyddiad geni;
- ei gyfeiriad cartref llawn a chod post.

Rhaid i ni gael y cyfeiriad cartref yn hytrach na chyfeiriad gwaith neu gyfeiriad yr elusen er mwyn i'r wybodaeth fod yn ddilys at ddibenion adnabod a gwybodaeth.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i chi ddarparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost. Gallwch roi, fel ôl-ddodiad, anrhydedd yr hoffai'r unigolyn ei ddefnyddio ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd, gallwch newid sut y cyfeirir at unigolion sy'n ymddiriedolwyr drwy nodi enw o ddewis ar gyfer pob ymddiriedolwr, er enghraifft, Bob Clarkin yn lle Mr Robert James Clarkin. Dyma'r enw fydd i'w weld ar y Gofrestr Elusennau ac a ddefnyddir i bostio gohebiaeth i'r elusen, fel arall defnyddir y manylion enw llawn.

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau cofnodi cyfeiriadau e-bost ar gyfer ymddiriedolwyr. Ni fydd y cyfeiriadau hyn yn cael eu dangos i'r cyhoedd. Gallwn eu defnyddio o bryd i'w gilydd i e-bostio diweddariadau pwysig ynghylch gwaith ymddiriedolwyr. Os nad yw ymddiriedolwyr eisiau derbyn y diweddariadau hyn, rhowch groes yn y blwch perthnasol ar dudalen 4.

Sylwch oni bai fod goddefeb yn cael ei rhoi, bydd enwau'r ymddiriedolwyr yn ymddangos ar y Gofrestr Elusennau gyhoeddus, y gellir ei gweld ar ein gwefan. Ni fydd cyfeiriadau a manylion personol eraill ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd eu gweld. I gael mwy o wybodaeth am oddefebau, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 300 0218.

A6 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd

Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion i ni am unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys ymddiriedolwyr a fu efallai'n gweithredu fel ymddiriedolwyr am beth amser ond nid yw eu manylion wedi'u rhagargraffu ar y ffurflen ac nid ydynt wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Elusennau. Ar gyfer pob unigolyn mae angen set lawn o fanylion arnom ar gyfer pob person, a fydd yn cynnwys:

- ei holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- ei enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- ei ddyddiad geni;
- ei gyfeiriad cartref llawn a chod post.

Rhaid i ni gael y cyfeiriad cartref yn hytrach na chyfeiriad gwaith neu gyfeiriad yr elusen er mwyn i'r wybodaeth fod yn ddilys at ddibenion adnabod a gwybodaeth.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i chi ddarparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost. Gallwch roi, fel ôl-ddodiad, anrhydedd yr hoffai'r unigolyn ei ddefnyddio ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd, gallwch newid sut y cyfeirir at unigolion sy'n ymddiriedolwyr drwy nodi enw o ddewis ar gyfer pob ymddiriedolwr, er enghraifft, Bob Clarkin yn lle Mr Robert James Clarkin. Dyma'r enw fydd i'w weld ar y Gofrestr Elusennau ac a ddefnyddir i bostio gohebiaeth i'r elusen, fel arall defnyddir y manylion enw llawn.

Os oes mwy o ymddiriedolwyr newydd gan eich elusen nag y gellir eu nodi yn adran hon y ffurflen, gwnewch gopi o dudalen wag o ran hon y ffurflen ac atodwch y tudalennau ychwanegol hyn y tu mewn i'r ffurflen pan fyddwch yn ei dychwelyd atom.

Sylwch oni bai fod goddefeb yn cael ei rhoi am resymau diogelwch neu resymau eraill, bydd enwau'r ymddiriedolwyr yn ymddangos ar y Gofrestr Elusennau, y gellir ei gweld ar ein gwefan. I gael mwy o wybodaeth am oddefebau, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 300 0218.

A7 – Ardal gweithredu

Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd edrych ar y Gofrestr Elusennau ac mae ar gael ar ein gwefan. I'w gwneud hi'n haws i'r cyhoedd, buddiolwyr a noddwyr posibl lywio'r Gofrestr a chael hyd i elusennau mewn ardaloedd penodol, gofynnwn i elusennau ddweud wrthym ble yn union y maen nhw'n gweithredu.

Pan gyfeiriwn at 'ardal gweithredu', rydym yn golygu'r ardal ddaearyddol lle mae'r elusen yn gwario ei chronfeydd elusennol er mwyn hybu ei dibenion elusennol, yn hytrach na lleoliad ei swyddfeydd gweinyddol. Er enghraifft, os yw elusen sydd wedi'i sefydlu i weithredu cartref plant amddifaid yn Rwmania wedi'i lleoli yn Hertfordshire, dylid nodi Rwmania fel yr ardal gweithredu.

Gall y ddogfen lywodraethol roi cyfyngiad ar ble y gall yr elusen weithredu. Os yw'n gwneud hynny, cyfeirir at yr ardal fel yr 'ardal o fudd' a dylid dangos hyn ar ein Cofrestr. Os nad yw'n pennu ardal ddaearyddol neu os yw wedi'i geirio mewn ffordd sy'n cynnig modd i'r elusen weithredu'n fyd-eang, ond yn ymarferol mae'r elusen yn gweithredu o fewn gwlad arbennig, ardal llywodraeth leol neu ardal leol arall, dylech nodi'r ardaloedd hyn ar y ffurflen. Rydym wedi newid fformat yr ardaloedd gweithredu ar ein Cofrestr, a bydd rhai elusennau a gafodd eu dosbarthu'n flaenorol fel elusennau sy'n gweithredu'n fyd-eang neu ar gyfandiroedd penodol yn gweld nad yw unrhyw fanylion wedi cael eu rhagargraffu. Os yw hyn yn gymwys i chi, mae angen i chi roi manylion am y gwledydd neu'r ardaloedd penodol rydych yn gweithredu ynddynt nawr.

Mae'n bwysig bod y Gofrestr yn adlewyrchu'r ardal(oedd) yn gywir lle mae ymddiriedolwyr wedi dewis canolbwyntio adnoddau'r elusen am y tro. Gall yr ardal gweithredu newid o flwyddyn i flwyddyn, ond os yw'r ymddiriedolwyr yn cadw eu cofnod ar y Gofrestr yn gyfoes maent yn llai tebygol o dderbyn ceisiadau am gymorth o'r tu allan i'w cylch gwaith.

Yn Rhan A7a, ar gyfer elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, gallwn dderbyn cofnodion dilys ar gyfer awdurdodau lleol o'r rhestr gyfeirio isod yn unig.

Ardaloedd awdurdodau unedol

Bath and North East Somerset
Blackburn with Darwen
Blackpool
Blaenau Gwent
Bournemouth
Bracknell Forest
Bridgend
Brighton and Hove
Bristol City
Caerphilly
Cardiff
Carmarthenshire
Ceredigion
Conwy
Darlington
Denbighshire
Derby City
East Riding of Yorkshire
Flintshire
Gwynedd
Halton
Hartlepool
Herefordshire
Isle of Anglesey
Isle of Wight
Isles of Scilly
Kingston upon Hull City
Leicester City
Luton
Medway
Merthyr Tydfil
Middlesbrough
Milton Keynes
Monmouthshire
Neath Port Talbot
Newport City
North East Lincolnshire
North Lincolnshire
North Somerset
Nottingham City
Pembrokeshire
Peterborough City
Plymouth City
Poole
Portsmouth City
Powys
Reading
Redcar and Cleveland
Rhondda Cynon Taff
Rutland
Slough
South Gloucestershire
Southampton City
Southend-on-Sea
Stockton-on-Tees
Stoke-on-Trent City
Swansea, City of
Swindon
Telford and Wrekin
Thurrock
Torbay
Torfaen
Vale of Glamorgan
Warrington
West Berkshire
Windsor and Maidenhead
Wokingham
Wrexham
York, City of

Bwrdeistrefi Llundain

Barking and Dagenham
Barnet
Bexley
Brent
Bromley
Camden
City of London
Croydon
Ealing
Enfield
Greenwich
Hackney
Hammersmith and Fulham
Haringey
Harrow
Havering
Hillingdon
Hounslow
Islington
Kensington and Chelsea
Kingston upon Thames
Lambeth
Lewisham
Merton
Newham
Redbridge
Richmond upon Thames
Southwark
Sutton
Tower Hamlets
Waltham Forest
Wandsworth
Westminster City

Bwrdeistrefi metropolitanaidd

Barnsley
Birmingham City
Bolton
Bradford City
Bury
Calderdale
Coventry City
Doncaster
Dudley
Gateshead
Kirklees
Knowsley
Leeds City
Liverpool City
Manchester City
Newcastle upon Tyne City
North Tyneside
Oldham
Rochdale
Rotherham
Salford city
Sandwell
Sefton
Sheffield City
Solihull
South Tyneside
St Helens
Stockport
Sunderland
Tameside
Trafford
Wakefield, City of
Walsall
Wigan
Wirral
Wolverhampton

Siroedd anfetropolitanaidd

Bedfordshire
Buckinghamshire
Cambridgeshire
Cheshire
Cornwall
Cumbria
Derbyshire
Devon
Dorset
Durham
East Sussex
Essex
Gloucestershire
Hampshire
Hertfordshire
Kent
Lancashire
Leicestershire
Lincolnshire
Norfolk
North Yorkshire
Northamptonshire
Northumberland
Nottinghamshire
Oxfordshire
Shropshire
Somerset
Staffordshire
Suffolk
Surrey
Warwickshire
West Sussex
Wiltshire
Worcestershire

Yn Rhan A7b, ar gyfer elusennau sy'n gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr, gallwn dderbyn cofnodion dilys ar gyfer gwledydd o'r rhestr gyfeirio isod yn unig.

Affrica

Algeria
Angola
Benin
Botswana
Burkina Faso
Burundi
Cameroon
Central African Republic
Chad
Comoros
Congo
Djibouti
Egypt
Equatorial Guinea
Eritrea
Ethiopia
Gabon
Gambia
Ghana
Guinea
Guinea-Bissau
Ivory Coast
Kenya
Lesotho
Liberia
Libya
Madagascar
Malawi
Mali
Mauritania
Mauritius
Morocco
Mozambique
Namibia
Niger
Nigeria
Rwanda
Sao Tome and Principe
Senegal
Seychelles
Sierra Leone
Somalia
South Africa
Sudan
Swaziland
Tanzania
Togo
Tunisia
Uganda
Zambia
Zimbabwe

Antarctica

Antarctica

Asia

Afghanistan
Armenia
Bahrain
Bangladesh
Bhutan
Brunei
Cambodia
China
India
Indonesia
Iran
Iraq
Israel
Japan
Jordan
Kazakhstan
Kuwait
Kyrgyzstan
Laos
Lebanon
Malaysia
Maldives
Mongolia
Myanmar
Nepal
North Korea
Oman
Pakistan
Philippines
Qatar
Saudi Arabia
Singapore
South Korea
Sri Lanka
Syria
Tajikistan
Thailand
Timor-Leste
Turkey
Turkmenistan
United Arab Emirates
Uzbekistan
Vietnam
Yemen

Ewrop

Albania
Andorra
Austria
Azerbaijan
Belarus
Belgium
Bosnia and Herzegovina
Bulgaria
Cape Verde
Croatia
Cyprus
Czech Republic
Denmark
Estonia
Finland
France
Georgia
Germany
Greece
Hungary
Iceland
Italy
Latvia
Liechtenstein
Lithuania
Luxembourg
Macedonia
Malta
Moldova
Monaco
Montenegro
Netherlands
Northern Ireland
Norway
Poland
Portugal
Republic of Ireland
Romania
Russia
San Marino
Scotland
Serbia
Slovakia
Slovenia
Spain
Sweden
Switzerland
Ukraine

Gogledd America

Antigua and Barbuda
Bahamas
Barbados
Belize
Canada
Costa Rica
Cuba
Dominica
Dominican Republic
El Salvador
Grenada
Guatemala
Haiti
Honduras
Jamaica
Mexico
Nicaragua
Panama
St Kitts and Nevis
St Lucia
St Vincent and the Grenadines
Trinidad and Tobago
United States of America

Ynysoedd y De

Australia
Fiji
Kiribati
Marshall Islands
Micronesia
Nauru
New Zealand
Palau
Papua New Guinea
Samoa
Solomon Islands
Tonga
Tuvalu
Vanuatu

De America

Argentina
Bolivia
Brazil
Chile
Colombia
Ecuador
Guyana
Paraguay
Peru
Surinam
Uruguay
Venezuela

A8 – Dosbarthu elusennau

Gofynnwn i elusennau ddosbarthu eu hunain drwy ddefnyddio tair 'elfen'. Mae'r rhain yn disgrifio BETH mae'r elusen yn ei wneud, PWY mae'n ei helpu, a SUT mae'n gweithredu. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i ddarpar roddwyr, buddiolwyr ac eraill i gael hyd i'r elusennau y maen nhw eisiau eu cael ar y Gofrestr Elusennau. Rydym wedi dangos y dosbarthiadau rydych wedi'u dewis cyn hyn drwy roi tic o dan 'Manylion cyfredol' ar ochr chwith y dudalen. Gwiriwch y rhain, ac os yw'r manylion yn anghywir neu'n anghyflawn, newidiwch nhw drwy groesi'r blychau 'Dileu' neu 'Ychwanegu' priodol wrth ochr pob dosbarthiad. Mae'r dosbarthiadau yn gategorïau bras na allwn eu teilwra i weddu i elusennau unigol, felly ni fyddwn yn diweddaru ein cofnodion o unrhyw ddiwygiadau llaw a wnewch i'r testun.

Dylai pob elusen ddewis o leiaf un categori ym mhob un o'r tair elfen i ddisgrifio eu gweithgareddau. Bydd y dosbarthiadau hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

A9 – Gweithgareddau elusennau

Yma dylech roi disgrifiad byr o weithgareddau'ch elusen i ategu'r dosbarthiadau bras a ddewiswyd yn A8. Dangosir y disgrifiad hwn ar y Gofrestr Elusennau ac mae'n ffordd ddefnyddiol i elusen ehangu ar yr wybodaeth sy'n cael ei dangos i'r cyhoedd, rhoddwyr posibl a buddiolwyr. Sylwch am resymau technegol ni all eich disgrifiad fod yn fwy na 400 nod gan gynnwys bylchau; ni allwn dderbyn unrhyw destun pellach sy'n fwy na'r terfyn hwn.

Mae elusennau wedi canfod fod darparu'r wybodaeth hon mewn ffordd hygyrch wedi helpu sicrhau bod yr ymholiadau a dderbyniant yn fwy perthnasol i'w gweithgareddau. Mae'n eu galluogi i ddweud wrth ddarpar roddwyr neu fuddiolwyr yn union beth mae'r sefydliad yn ei wneud, sut y mae'n gwneud hynny a ble y mae'n gweithredu, yn arbennig os yw'r ymddiriedolwyr yn teimlo nad yw'r disgrifiadau cyffredinol yn yr adrannau dosbarthu elusennau ac ardal gweithredu yn gweddu'n union i'r hyn y mae'r elusen yn ei wneud a ble y mae'n gweithredu.

Er enghraifft, gall elusen gyda dibenion elusennol cyffredinol roi grantiau yn unig i bobl sy'n astudio mewn lleoliad arbennig neu bwnc o ddewis. Yn yr un modd, gall elusen sy'n ceisio cynorthwyo pobl mewn angen ddewis darparu'r gwasanaeth hwnnw drwy gyfrwng gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sy'n byw mewn ardal arbennig. Yr adran 'Gweithgareddau elusennau' yw'r cyfle delfrydol i ddweud wrth bobl am hyn.

Mae lle yn gyfyng, felly nid ydym wedi rhagargraffu unrhyw wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer hyn ar y ffurflen, ond os ydych wedi rhoi disgrifiad o'ch gweithgareddau o'r blaen gallwch wirio a newid y manylion hyn drwy ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein. Gallwch gyrchu'r rhain drwy ein gwefan yn www.charitycommission.gov.uk. Bydd yr wybodaeth a rowch yn yr adran hon yn cymryd lle unrhyw fanylion sydd gennym ar hyn o bryd.

A10 & A11 – Cyfeiriadau e-bost yr elusen

Bydd yr adrannau hyn yn dangos unrhyw fanylion cyfeiriad e-bost sydd gennym ar gyfer eich elusen. Gall eich elusen restru dau gyfeiriad e-bost: cyfeiriad cyhoeddus a gaiff ei ddangos ar y Gofrestr Elusennau ac mae modd ei weld ar ein gwefan, a chyfeiriad preifat y byddwn yn ei ddefnyddio dim ond ar gyfer cysylltu â'r elusen. Nid oes rhaid i chi ddarparu dau gyfeiriad gwahanol o reidrwydd oherwydd gellir defnyddio'r un cyfeiriad ar gyfer y ddau ddiben. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r un cyfeiriad, dylech sicrhau eich bod yn ei roi yn A10 ac A11.

Os hoffech newid neu ddiwygio cyfeiriad e-bost rhagargraffedig, neu roi cyfeiriad e-bost newydd i ni, defnyddiwch 'Manylion diwygiedig'. Os hoffech ddileu cyfeiriad e-bost, rhowch groes yn y blwch o dan y cyfeiriad perthnasol.

A12 – Gwefan yr elusen

Os ydym yn cadw manylion am gyfeiriad gwefan yr elusen, caiff ei ddangos yma. Bydd yn ymddangos ar eich cofnod yn y Gofrestr ar ein gwefan fel cyswllt i wefan eich elusen. Os hoffech newid neu ddiwygio cyfeiriad gwefan rhagargraffedig, neu roi cyfeiriad newydd i ni, defnyddiwch 'Manylion diwygiedig'. Peidiwch â gwneud newidiadau i'r manylion rhagargraffedig, oherwydd ni chânt eu prosesu. Os hoffech ddileu'r cyfeiriad gwefan, rhowch groes yn y blwch perthnasol i ddweud wrthym nad oes gan yr elusen wefan mwyach.

A13 – Prif gyfrif banc/cymdeithas adeiladu yr elusen

Yma byddwn yn dangos manylion y prif gyfrif sydd gennym ar gyfer eich elusen. Os yw'r manylion yn anghywir neu'n wag, rhowch set gyflawn o fanylion cywir o dan 'Manylion diwygiedig'. Er mwyn penderfynu a oes cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu gan eich elusen bydd angen yr wybodaeth ganlynol arnom:

Ar gyfer cyfrif banc:

- enw llawn y banc;
- enw'r cyfrif fel y mae'n ymddangos ar y llyfr sieciau, paslyfr neu gyfriflen;
- cod didoli''r banc, gyda chwe digid a dylech ei nodi fel y mae'n ymddangos, er enghraifft, 12-34-56;
- rhif eich cyfrif banc; fe welwch hwn ar eich llyfr sieciau neu gyfriflenni banc ac fel arfer mae'n cynnwys 7-10 digid.

Ar gyfer cymdeithas adeiladu:

- enw llawn y gymdeithas adeiladu;
- enw'r cyfrif fel y mae'n ymddangos ar y llyfr sieciau, paslyfr neu gyfriflen;
- rhif rôl neu gyfeirnod. Gall y rhif rôl neu gyfeirnod gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod. Os nad ydych yn siŵr a oes rhif rôl neu gyfeirnod gan y cyfrif, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Mae angen manylion am eich prif gyfrif arnom yn unig, ac ni fydd unrhyw fanylion am y cyfrif yn cael eu rhoi i'r cyhoedd.

RHAN B – GWYBODAETH ARIANNOL

Os oes is-ymgymeriadau gan eich elusen y mae'n eu rheoli a thrwyddynt mae'n ymgymryd â rhan o'i gweithgareddau elusennol neu gynhyrchu incwm, mae'n debygol fod cyfrifon cyfunol neu grŵp yn cael eu paratoi. Pan fydd cyfrifon cyfunol yn cael eu paratoi, dylai'r atebion a rowch yn yr adran hon ddod o'r cyfrifon cyfunol ac nid o gyfrifon yr elusen ei hun. Nodwch a ydych yn seilio eich atebion ar gyfrifon cyfunol neu gyfrifon endid yn unig ar gyfer yr elusen yn y blwch a ddarperir.

Drwy'r adran hon, nodwch rifau heb arwyddion (£, minws neu gromfachau) oni bai fod y swm yn wrthwyneb i'r arfer, ee i nodi cyfanswm rhwymedigaethau net yn y blwch 'Cyfanswm asedau net' (B2.6), ac os felly dylech ddangos y swm drwy ddefnyddio'r arwydd minws. Yn yr un modd, os gall ffigur sydd i'w nodi fod yn bositif neu'n negatif fel arfer, ee enillion/colledion neu asedau buddsoddi (B1.8), enillion/colledion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn budd diffiniedig (B1.9) neu asedau/rhwymedigaethau cronfa pensiwn (B2.5), dylech roi arwydd minws i gynrychioli ffigur negyddol megis colled neu rwymedigaeth.

B1 – Adnoddau

Yn gyffredinol bydd yr wybodaeth a fydd ei hangen arnoch i gwblhau'r adran hon i'w gweld yn y datganiad o weithgareddau ariannol. Mae'n bosibl na fydd rhai manylion rydym yn gofyn amdanynt (er enghraifft swm y cymynroddion a chostau cymorth) yn cael eu dangos ar wahân yn y datganiad o weithgareddau ariannol ond byddant ar gael yn y nodiadau ar y cyfrifon. Os nad oes unrhyw incwm neu gostau cysylltiedig gan gofnod arbennig, dylech nodi sero.

B1.1 – Incwm gwirfoddol

Mae incwm gwirfoddol yn cynnwys adnoddau a dderbynnir sydd wedi'u cynhyrchu o'r ffynonellau canlynol:

(a) rhoddion a chyfraniadau a dderbyniwyd gan gynnwys cymynroddion;

(b) unrhyw dreth a adenillwyd ar symiau a dderbyniwyd o dan rodd cymorth;

(c) grantiau sy'n darparu cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol;

(ch) tanysgrifiadau aelodaeth a nawdd os ydynt, yn eu hanfod, yn gyfraniadau; a

(d) rhoddion o fath arall a gwasanaethau a chyfleusterau a roddwyd.

Diffinnir incwm gwirfoddol yn y SORP Elusennau ym mharagraff 121 ac fe'i dangosir yn rhes A1a tabl 3 y SORP.

B1.1a – Cymynroddion

Swm y cymynroddion a dderbyniwyd sydd wedi'i gynnwys mewn incwm gwirfoddol yw hwn (gweler B1.1). Os yw unrhyw gymynroddion i'w cadw fel gwaddol, peidiwch â'u cynnwys yma ond yn Gwaddolion a dderbyniwyd.

B1.1b – Gwaddolion a dderbyniwyd

Swm yr incwm gwirfoddol sydd i'w dderbyn yn y flwyddyn (gweler B1.1) a gafodd eu hychwanegu at waddolion. Mae derbyniadau gwaddol yn cynnwys unrhyw setliadau o'r

rhoddwr, gan gynnwys cymynroddion, y mae'n rhaid eu cadw fel cyfalaf gwaddol. Ni fydd yn cynnwys enillion cyfalaf (neu log) sydd efallai wedi codi o'r gwaddolion.

B1.2 – Gweithgareddau i gynhyrchu cronfeydd

Bydd yn cynnwys adnoddau a gynhyrchwyd gan weithgareddau masnachu sy'n benodol ar gyfer codi arian i'r elusen; er enghraifft:

(a) digwyddiadau codi arian megis ffeiriau sborion, arddangosiadau tân gwyllt a chyngherddau;

(b) nawdd a lotrïau cymdeithasol nad oes modd eu hystyried yn gyfraniadau pur;

(c) incwm o siopau drwy werthu nwyddau a gyfrannwyd a nwyddau a brynwyd i mewn;

(ch) darparu nwyddau a gwasanaethau heblaw ar gyfer budd buddiolwyr yr elusen; a

(d) trefniadau gosod a thrwyddedu eiddo a ddelir at ddefnydd swyddogaethol yn bennaf ond sy'n fwy na'r gofynion gweithredol dros dro.

Diffinnir gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu cronfeydd yn y SORP Elusennau ym mharagraff 137 ac fe'u dangosir yn rhes A1b tabl 3 y SORP.

B1.3 – Incwm o fuddsoddiadau

Mae incwm o fuddsoddiadau yn cynnwys adnoddau a dderbynnir o asedau buddsoddi, gan gynnwys difidendau, llog a rhent ond heb gynnwys enillion a cholledion buddsoddi wedi'u realeiddio a heb eu realeiddio (gweler B1.8). Dangosir incwm o fuddsoddiadau yn rhes A1c tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.4 – Adnoddau a dderbynnir o weithgareddau elusennol

Mae adnoddau a dderbynnir o weithgareddau elusennol yn cynnwys unrhyw adnoddau sy'n codi o weithgareddau sy'n hybu amcanion elusennol. Mae'n cynnwys:

- gwerthu nwyddau neu wasanaethau fel gweithgaredd elusennol;
- gwerthu nwyddau a wnaed neu wasanaethau a ddarparwyd gan fuddiolwyr yr elusen;
- gosod eiddo heb fod yn eiddo buddsoddi i hybu amcanion yr elusen;
- grantiau sy'n benodol ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau neu wasanaethau elusennol i fuddiolwyr (gan gynnwys grantiau cysylltiedig â pherfformiad);
- masnachau atodol sy'n gysylltiedig â'r uchod.

Dangosir masnachu elusennol yn rhes A2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.5 – Adnoddau eraill a dderbynnir

Bydd y swm hwn yn cynnwys enillion ar waredu asedau sefydlog diriaethol ac unrhyw adnoddau eraill a dderbynnir nad oes modd eu dadansoddi yn y categorïau uchod.

Dangosir y swm yn rhes A3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.6 – Cyfanswm adnoddau a dderbynnir

Cyfanswm yr holl adnoddau a dderbynnir ac fe'i dangosir fel cyfanswm adran A tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.7 – Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol

Swm unrhyw newid mewn gwerth asedau sefydlog diriaethol (hy, yr holl asedau sydd heb eu dal at ddibenion buddsoddi) o ganlyniad i ailbrisio yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dangosir y swm yn rhes D1 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.8 – Enillion/colledion ar asedau buddsoddi

Cyfanswm unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o ailbrisio asedau buddsoddi i werth y farchnad ac unrhyw enillion a cholledion wedi'u realeiddio ar waredu asedau buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y swm yn rhes D2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.9 – Enillion/colledion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn budd diffiniedig

Os yw cynllun pensiwn budd diffiniedig yn cael ei weithredu, bydd yn cynnwys yr enillion neu golledion actiwaraidd ar y cynlluniau fel y nodwyd yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Dangosir y swm yn rhes D3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.10 – Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol

Mae'n cynnwys yr holl gostau sy'n deillio drwy godi incwm gwirfoddol i'w wario ar ddibenion elusennol. Bydd y swm yn cynnwys costau cynhyrchu incwm gwirfoddol a restrir ym mlwch B1.1 uchod (er enghraifft cyfraniadau, cymynroddion, grantiau cyllid craidd a nwyddau o fath arall). Hefyd, gall y costau gynnwys hysbysebu codi arian, deunyddiau marchnata a phost uniongyrchol, yn ogystal ag unrhyw dâl sy'n daladwy i asiant. Fel rheol bydd yn cynnwys costau cyhoeddusrwydd ond nid costau a ddefnyddir mewn ffordd addysgol i hybu amcanion yr elusen.

Dangosir y costau yn rhes B1a tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.11 – Costau masnachu codi arian

Mae costau masnachu codi arian yn cynnwys y costau sy'n deillio drwy fasnachu i godi incwm i'w wario at ddibenion elusennol. Bydd yn cynnwys yr holl gostau sy'n codi drwy gynhyrchu'r incwm a restrir ym mlwch B1.2 uchod ac yn cynnwys:

– cost nwyddau a werthwyd neu wasanaethau a ddarparwyd fel rhan o'r fasnach; a
– chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r fasnach, megis costau staff ac eiddo.

Dangosir y costau hyn yn rhes B1b tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.12 – Costau rheoli buddsoddiadau

Mae costau rheoli buddsoddiadau yn cynnwys costau ceisio cyngor ar fuddsoddiadau, rheoli'r portffolio ac (ar gyfer eiddo buddsoddi) casglu rhenti, atgyweiriadau eiddo a chostau cynnal a chadw.

Dangosir y costau hyn yn rhes B1c tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.13 – Costau gweithgareddau elusennol

Mae hyn yn cynnwys yr holl adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gweithgareddau er mwyn bodloni'r amcanion elusennol yn wahanol i godi arian i gyllido'r gweithgareddau hyn neu weithgarwch llywodraethu. Maent yn cynnwys symiau a wariwyd ar grantiau, a darparu gwasanaethau elusennol yn uniongyrchol. Maent hefyd yn cynnwys cyfran o gostau cynnal yr elusen.

Dangosir y costau hyn yn rhes B2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.13a – Grantiau i sefydliadau

Mae grantiau i sefydliadau yn rhan o gostau gweithgareddau elusennol. Mae'r SORP yn diffinio grantiau o'r fath fel grantiau sydd heb eu rhoi i unigolion. Gallant naill ai fod yn grantiau cymorth cyffredinol neu grantiau i'w gwario ar ryw ddiben cyfyngedig.

Yn y cyd-destun hwn nid yw grantiau'n cynnwys unrhyw gostau cynnal wedi'u dyrannu. Bydd swm y grantiau a dalwyd i sefydliadau yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

B1.14 – Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys costau cyffredinol rhedeg yr elusen yn wahanol i gostau cynhyrchu cronfeydd neu gyflawni gweithgareddau elusennol. Fel rheol maent yn cynnwys costau archwilio, cyngor cyfreithiol i ymddiriedolwyr a chostau bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol (ee, cyfarfodydd ymddiriedolwyr a chyfrifon statudol blynyddol), a gallent gynnwys prosesau cynllunio strategol.

Dangosir costau llywodraethu yn rhes B3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.15 – Adnoddau eraill a ddefnyddiwyd

Ni ddefnyddir y categori hwn yn aml, ond pan gaiff ei ddefnyddio, dangosir y swm yn rhes B4 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.16 – Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

Swm yr holl adnoddau a ddefnyddiwyd yw hwn a dangosir y swm fel cyfanswm adran B tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.17 – Costau cynnal

Costau cynnal yw costau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni gweithgaredd ond nid ydynt yn cynhyrchu'r gweithgaredd eu hunain. Maent yn cynnwys swyddogaethau swyddfa ganolog yr elusen ac yn cael eu dosrannu i weithgareddau yn aml. Y swm a ddangosir yma yw cyfanswm costau cynnal (ar gyfer gweithgareddau elusennol, codi arian a llywodraethu) sydd wedi'u cynnwys yn yr adnoddau a ddefnyddiwyd.

Dangosir y swm yn y nodiadau ar y cyfrifon os yw'n sylweddol (hy, yn arwyddocaol).

B1.18 – Dibrisiant

Dibrisiant yw cyfanswm y dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol (gan gynnwys costau amhariad, os oes) a godwyd i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn. Dangosir y swm hwn yn y nodiadau ar y cyfrifon.

B1.19 – Lefel y cronfeydd wrth gefn o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr

Cyfrifir lefel y cronfeydd wrth gefn yn unol â rhestr termau GL51 y SORP ac fe'i nodir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (ABY). Fel rheol bydd yn cynnwys swm y cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w wario, ac fel rheol ni fydd yn cynnwys gwaddol.

B2 – Asedau a rhwymedigaethau

Mae'r adran hon yn cynnwys symiau wedi'u tynnu o'r fantolen, neu'r nodiadau ar y cyfrifon, ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Nid oes angen yr holl ffigurau yn y fantolen. Os nad oes unrhyw symiau sy'n ymwneud â chofnod arbennig, rhowch sero.

B2.1 – Cyfanswm asedau sefydlog

Asedau sefydlog yw'r rhai a ddelir at ddefnydd parhaus ac maent yn cynnwys asedau sefydlog diriaethol megis tir, adeiladau, offer a cherbydau, ac unrhyw fuddsoddiadau a ddelir yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion. Gall rhai elusennau ddal asedau treftadaeth hefyd sy'n cael eu cynnal neu eu cadw fel rhan o amcanion yr elusen, neu asedau anniriaethol megis patentau.

Dangosir cyfanswm yr asedau sefydlog ar y fantolen ac mae'n gyfanswm o adran A tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.1a – Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu dal yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion a gallant gynnwys cyfrannau wedi'u dyfynnu a heb eu dyfynnu, bondiau, giltiau, cronfeydd buddsoddi cyffredin, eiddo buddsoddi ac adneuon tymor fel rhan o bortffolio buddsoddi. Ni fydd buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen, a ddangosir yn rhes A4a tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.2 – Cyfanswm asedau cyfredol

Mae cyfanswm asedau cyfredol yn cynnwys stoc, dyledwyr, buddsoddiadau asedau cyfredol ac arian parod. Dangosir y swm fel cyfanswm adran B tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.2a – Buddsoddiadau asedau cyfredol

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cael eu dal gyda'r bwriad o'u gwaredu o fewn y 12 mis nesaf. Mae buddsoddiadau o'r fath i'w gweld yn rhes B3 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.2b – Arian parod

Mae arian parod a ddelir fel rhan o asedau cyfredol yn cynnwys adneuon banc ac eraill gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy ar gais ond nid yw'n cynnwys gorddrafftiau banc. Dangosir arian parod yn rhes B4 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.3 – Credydwyr yn ddyledus o fewn blwyddyn

Dyma'r symiau y mae ar yr elusen i gredydwyr ac maent yn cynnwys benthyciadau a gorddrafftiau, credydwyr masnach, croniadau ac incwm gohiriedig; maent yn daladwy cyn pen blwyddyn ac fe'u dangosir yn rhes C1 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.4 – Credydwyr a darpariaethau tymor hir

Dyma'r symiau y mae ar yr elusen i gredydwyr sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn, gyda darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau, ac mae'n gyfanswm o resi C2 a C3 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.5 – Asedau cronfa pensiwn/(rhwymedigaethau)

Gwarged neu ddiffyg mewn unrhyw gynllun pensiwn budd diffiniedig sy'n cael ei weithredu yw hwn ac mae'n cynrychioli ased neu rwymedigaeth tymor hir posibl. Dangosir yr ased neu rwymedigaeth cronfa pensiwn yn rhes D tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.6 – Cyfanswm asedau/(rhwymedigaethau) net

Cyfanswm yr holl asedau a ddangosir ar y fantolen yw hwn yn glir o'r holl rwymedigaethau. Dangosir y swm ar dabl 7 y SORP Elusennau fel asedau neu rwymedigaethau net gan gynnwys ased neu rwymedigaeth pensiwn.

B2.7 – Cyfanswm asedau sefydlog (ar ddechrau'r flwyddyn)

Fel yr esboniwyd yn B2.1 uchod, asedau sefydlog yw'r asedau hynny a ddelir at ddefnydd parhaus ac maent yn cynnwys asedau sefydlog diriaethol megis tir, adeiladau, offer a cherbydau, ac unrhyw fuddsoddiadau a ddelir yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion. Gall rhai elusennau hefyd ddal asedau treftadaeth sy'n cael eu cynnal neu eu cadw fel rhan o amcanion yr elusen, neu asedau anniriaethol megis patentau.

Dangosir cyfanswm yr asedau sefydlog ar ddechrau'r flwyddyn yn ffigurau cymharol y fantolen ac yn y nodiadau ar y cyfrifon. Dangosir y swm fel cyfanswm adran A tabl 7 y SORP Elusennau am y flwyddyn flaenorol.

B2.7a – Buddsoddiadau asedau sefydlog (ar ddechrau'r flwyddyn)

Fel yr esboniwyd yn B2.1a uchod, mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu dal yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion a gallant gynnwys cyfrannau wedi'u dyfynnu a heb eu dyfynnu, bondiau, giltiau, cronfeydd buddsoddi cyffredin, eiddo buddsoddi ac adneuon tymor a ddelir fel rhan o bortffolio buddsoddi, ac eithrio buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen. Dangosir buddsoddiadau asedau sefydlog ar ddechrau'r flwyddyn yn ffigurau cymharol y fantolen ac yn y nodiadau ar y cyfrifon. Dangosir y swm yn rhes A4a tabl 7 y SORP Elusennau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

B2.8 – Cronfeydd gwaddol

Mae cronfeydd gwaddol yn cynnwys swm yr holl gronfeydd gwaddol parhaol a threuliadwy. Dangosir y swm yn rhes E1 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.9 – Cronfeydd cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys swm yr holl gronfeydd a ddelir y mae'n rhaid eu gwario fel incwm at ddibenion arbennig yr elusen. Dangosir y swm yn rhes E2 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.10 – Cronfeydd anghyfyngedig

Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys swm yr holl gronfeydd a ddelir at ddibenion anghyfyngedig yr elusen. Bydd cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys cronfeydd incwm anghyfyngedig, cronfeydd ailbrisio ac unrhyw gronfa pensiwn. Dangosir y swm fel cyfanswm adran E3 tabl 7 y SORP Elusennau.

B2.11 – Cyfanswm cronfeydd

Cyfanswm cronfeydd yw swm yr holl gronfeydd a ddangosir ar y fantolen gan gynnwys cronfeydd gwaddol, cronfeydd incwm cyfyngedig a chronfa anghyfyngedig. Dangosir y swm fel cyfanswm adran E tabl 7 y SORP Elusennau ac mae'n hafal i'r 'Cyfanswm asedau net' a ddangosir ym mlwch 2.6.

B3 – Gweithwyr cyflogedig

B3.1 – Nifer y gweithwyr cyflogedig amser llawn cyfatebol

Dyma nifer y gweithwyr cyflogedig a nodir yn y nodiadau ar y cyfrifon yn unol â pharagraff 235 y SORP.

B4 – Gwirfoddolwyr (dewisol)

B4.1 – Nifer y gwirfoddolwyr DU

Eleni rydym yn gofyn am nifer y gwirfoddolwyr DU a oedd gan elusen yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn i ni geisio meintioli'r cyfraniad arwyddocaol y mae gwirfoddolwyr wedi'i wneud i'r sector elusennol. Gwyddwn nad yw pob elusen yn cadw cofnodion cyflawn o wirfoddolwyr ac rydym yn ymwybodol o'r baich posibl o ddarparu gwybodaeth sydd heb ei chasglu cyn hyn, felly gallwch ddewis ateb y cwestiwn hwn neu beidio. Fodd bynnag, os gallwch gwblhau'r cwestiwn hwn byddem yn gofyn i'r ymddiriedolwyr roi eu hamcangyfrif gorau o nifer y gwirfoddolwyr unigol yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag ar sail cyfwerth ag amser llawn neu pro-rata.

ADRODD AM DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL

Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr i gymryd camau rhesymol i asesu a lleddfu unrhyw risgiau i weithgareddau neu fuddiolwyr eu helusen. Ceisiwn dargedu ein hadnoddau lle y mae neu y bu risg o ddigwyddiad difrifol a allai achosi niwed difrifol i eiddo, gwaith, buddiolwyr neu enw da eich elusen.

Eleni rydym yn gofyn i ymddiriedolwyr gadarnhau eu bod wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath wrth iddynt godi, neu os ydynt wedi methu â gwneud hynny eu hadrodd fel rhan o'r Ffurflen Flynyddol.

Gofyniad cyfreithiol

Dylai ymddiriedolwyr ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau difrifol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt fod yn ymwybodol ohonynt. Rhaid iddynt, fel rhan o Ffurflen Flynyddol yr elusen, gadarnhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol neu faterion eraill y dylent fod wedi dwyn at ein sylw ond nid ydynt wedi gwneud hynny. Byddai methu â darparu'r cadarnhad hwn yn golygu eich bod yn torri gofynion cyfreithiol.

Arferion gorau

mater o arfer dda, dylid rhoi gwybod i ni ar unwaith am ddigwyddiadau sy'n achosi colled sylweddol arwyddocaol o gronfeydd neu risg sylweddol i fuddiolwyr, adnoddau neu enw da yr elusen, nid yn unig pan fyddwch yn cwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

Beth sy'n ddifrifol neu'n sylweddol?

Chi sydd i benderfynu hyn yng nghyd-destun eich elusen. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg at reoleiddio ac yn targedu ein gweithredoedd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Mae ein hymagwedd at faterion o bryder difrifol wedi'i nodi'n fyr isod ac rydym wedi ceisio rhoi peth arweiniad ar yr hyn sy'n ddifrifol neu'n sylweddol yn y nodiadau sy'n dilyn.

Dim goddefgarwch

Mae'r materion rydym yn mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch tuag atynt yn cynnwys:

- cysylltiadau â sefydliadau gwaharddedig (wedi'u gwahardd);
- cysylltiadau elusennau â therfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth, boed yn ariannol neu fel arall;
- camddefnyddio elusen i feithrin eithafiaeth droseddol;
- gwyngalchu arian;
- camddefnyddio buddiolwyr agored i niwed;
- peidio â chael mesurau digonol i ddiogelu buddiolwyr agored i niwed;
- ffug elusennau, wedi'u sefydlu at ddibenion anghyfreithlon neu amhriodol.

Byddwn yn asesu'r holl adroddiadau o faterion dim goddefgarwch yn wrthrychol a gyda meddwl agored er mwyn penderfynu ar yr ymateb mwyaf cyfatebol ac effeithiol.

Gweithgarwch troseddol

Disgwyliwn i ymddiriedolwyr roi gwybod i ni am unrhyw weithgarwch troseddol o fewn yr elusen neu sy'n cynnwys yr elusen. Mae hyn yn cynnwys unrhyw droseddau a gyflawnwyd yn rhinwedd personol sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd unigolyn i ymwneud â'r elusen, boed fel ymddiriedolwr, aelod staff neu wirfoddolwr.

Ffactorau i'w hystyried

Ar gyfer materion eraill, gweithredwn raddfeydd o hyblygrwydd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater. Mae hyn yn cynnwys ystyried ffactorau ychwanegol a all gynyddu neu leihau'r risgiau i'r elusen ac felly addasu ein hymateb. Mae ffactorau o'r fath yn cynnwys cyfran yr asedau sydd mewn perygl; proffil yr elusen (er enghraifft, os yw'n enw cyfarwydd); a oes unrhyw sylw yn y wasg leol, genedlaethol neu ryngwladol; dibynadwyedd yr wybodaeth a ddarparwyd; hyd a lled y gwasanaethau a dynnwyd yn ôl; ac a oes gan yr elusen hanes o beidio â chydymffurfio. Ond nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Beth os yw'n honiad neu amheuaeth?

Dylech ddweud wrthym am hyn os ydych wedi derbyn gwybodaeth sy'n eich arwain at gredu neu amau fod digwyddiad difrifol wedi digwydd ac mae sail resymol gennych dros yr amheuaeth. Un o'n swyddogaethau statudol yw adnabod ac ymchwilio i gamymddwyn neu gamreoli posibl wrth weinyddu elusennau. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth at ein gwaith a byddwn bob amser yn profi honiadau cyn penderfynu ar ymateb rheoleiddio, os oes angen.

Beth os ydw i eisoes wedi rhoi gwybod i chi am hyn?

Os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i chi amdano, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym eto. Fodd bynnag, os ydych eisoes wedi adrodd am ddigwyddiad difrifol, neu amheuaeth neu honiad o ddigwyddiad difrifol i'r heddlu neu reolydd neu asiantaeth arall, dylech ddweud wrthym ni am hyn hefyd.

DIGWYDDIADAU DIFRIFOL

Twyll, lladrad neu golli cronfeydd sylweddol

Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddifrifol neu'n sylweddol yn wahanol ar gyfer elusennau o wahanol faint. Fel canllaw, byddem yn disgwyl i chi adrodd am unrhyw dwyll, lladrad neu golli cronfeydd sy'n hafal i neu'n fwy na £25,000 neu 20% o incwm yr elusen, p'un bynnag yw'r swm lleiaf. Er y byddem yn mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg tuag at drothwy £25,000, gan ystyried incwm yr elusen a ffactorau addasu eraill, byddem yn parhau i ddisgwyl i chi ddweud wrthym am golled os yw wedi cael ei achosi drwy dwyll neu weithgarwch troseddol arall.

Symiau o arian sylweddol neu eiddo arall a roddwyd i'r elusen o ffynhonnell anhysbys neu heb ei gwirio

Gallai hyn olygu un cyfraniad anarferol o fawr unwaith-yn-unig neu gyfraniadau llai rheolaidd o ffynhonnell nad oes modd i chi ei hadnabod neu nid ydych wedi'i gwirio. Gall cyfraniadau fod ar ffurfiau eraill heblaw arian, ee cyfrannau neu nwyddau.

Yma, byddem yn disgwyl i chi adrodd am unrhyw daliad unwaith-yn-unig sy'n hafal i neu'n fwy na £25,000, neu ddau daliad neu fwy sy'n adio i'r swm hwn. Gall y risgiau o dderbyn cyfraniad gan ffynhonnell anhysbys neu heb ei gwirio fod yn fwy pan fydd y cyfraniad yn gosod amodau penodol.

Mae'n arfer gorau i wybod pwy yw'ch cyfranwyr, yn yr un modd â gwybod pwy yw'ch buddiolwyr.

Gofyniad cyfreithiol

Mae newidiadau i'r gyfraith dreth yn dilyn adran 54 Deddf Cyllid 2006 yn golygu bod rhaid i elusen gadw cofnodion o roddwyr a buddion sylweddol a dderbynnir gan y rhoddwyr hyn, er mwyn osgoi bod yn atebol i dalu treth.

Mae gan yr elusen (gan gynnwys staff unigol neu ymddiriedolwyr neu'r ddau) unrhyw gysylltiad hysbysu honedig â sefydliad gwaharddedig (wedi'i wahardd) neu weithgareddau terfysgol neu anghyfreithlon eraill

Os daw hyn i'ch sylw, neu os ydych yn amau bod gan ymddiriedolwr neu aelod staff arall unrhyw gysylltiadau o'r fath, dylech roi gwybod i ni. Mae ein Canllaw Gweithredol OG96 Elusennau a Therfysgaeth ar ein gwefan yn esbonio mwy am yr egwyddorion sy'n sail i'r ffordd yr ydym yn trin honiadau o gysylltiadau elusennau â therfysgaeth; dyletswyddau ymddiriedolwyr; ac adrodd am amheuon. Fe welwch restr o sefydliadau gwaharddedig ar wefan y Swyddfa Gartref yn www.homeoffice.gov.uk.

Gallwch weld ein polisi ar elusennau a'u cysylltiadau honedig â therfysgaeth ar ein gwefan.

Mae person sydd wedi'i anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr wedi bod yn gweithredu neu yn gweithredu ar hyn o bryd fel ymddiriedolwr elusen

Mae'r digwyddiad hwn a'r ddau sy'n dilyn yn bwriadu sefydlu a oes systemau mewn lle i wirio cymhwysedd ymddiriedolwyr a diogelu plant a buddiolwyr agored i niwed eraill. Er nad yw'r ddau sy'n dilyn yn 'ddigwyddiadau' eu hunain, mae diffyg systemau digonol yn cynyddu'r risg o ddigwyddiad.

Gofyniad cyfreithiol

Mae rhai pobl wedi'u hanghymhwyso yn ôl y gyfraith rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr, gan gynnwys unrhyw un a ddisgrifir yn adran 72(1) Deddf Elusennau 1993. Mae manylion pellach i'w gweld yn ein cyhoeddiad CC30 Cael Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd - Yr hyn y mae angen i elusennau wybod.

Fel rheol mae'n drosedd i weithredu fel ymddiriedolwr tra'ch bod wedi'ch anghymhwyso oni bai ein bod wedi rhoi hepgoriad o dan adran 72(4) Deddf Elusennau 1993 (mae rhai darpariaethau arbennig yn gymwys i weinyddu cwmnïau elusennol).

Yn ogystal â'r anghymwysiadau uchod, sy'n gymwys i bob math o elusennau, mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn anghymhwyso rhai unigolion rhag dal ystod o swyddi mewn elusennau plant, sy'n cynnwys bod yn ymddiriedolwr elusen. Nid oes awdurdod gennym roi hepgoriad ar gyfer y math hwn o anghymhwysiad.

Gall fod rhai cyfyngiadau hefyd yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Mae gwybodaeth bellach am anghymwysiadau a hepgoriadau o anghymwysiad i'w gweld ar ein gwefan.

Nid oes gan yr elusen bolisi ar gyfer diogelu ei buddiolwyr agored i niwed (ee, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau a'r henoed/hen bobl)

Diogelu plant ac oedolion agored i niwed

Disgwyliwn i ymddiriedolwyr weithredu systemau ar gyfer diogelu buddiolwyr agored i niwed. Mae ein canllawiau ar ddiogelu plant i'w gweld ar ein gwefan.

Nid ydym yn gweinyddu deddfwriaeth ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, ond rydym yn ymwneud â gwarchod ffydd y cyhoedd mewn unplygrwydd elusennau.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn gyfrifol am bolisi'r llywodraeth ar ddiogelu plant. Mae mwy o wybodaeth i'w gweld ar www.everychildmatters.gov.uk

Mae'r Adran Iechyd yn gyfrifol am bolisi'r llywodraeth ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae mwy o wybodaeth i'w gweld yn www.dh.gov.uk

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn newid. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i www.everychildmatters.gov.uk

Gwiriadau CRB

Ydy gwiriadau CRB yn ofyniad cyfreithiol?

Mae cynnal gwiriad CRB yn golygu datgelu gwybodaeth sensitif a phersonol a fyddai'n gyfrinachol fel rheol, felly mae hawl gyfreithiol i gynnal gwiriadau ar gyfer rhai swyddi yn unig. O fewn y grŵp hwn mae rhai swyddi penodol hefyd lle mae gofyniad cyfreithiol i gynnal gwiriad CRB.

Mae manylion ynghylch pryd mae gofyniad cyfreithiol i gynnal gwiriad CRB i'w gweld ar ein gwefan.

Beth ddylai ymddiriedolwyr ei wneud?

Rhaid i chi gynnal gwiriadau CRB os oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Yn ogystal cynghorwn eich bod yn cynnal gwiriadau CRB os oes hawl gyfreithiol gennych i wneud hynny, er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni eich dyletswyddau cyffredinol i'r elusen. Dylid cynnal gwiriadau yn rheolaidd ar gyfer ymddiriedolwyr sy'n parhau yn y swydd.

Yn y pen draw yr ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu a oes hawl neu ofyniad cyfreithiol i gynnal y gwiriadau hyn. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwiriadau CRB yn gymhleth a dylech geisio cyngor proffesiynol os oes angen.

Os nad yw ymddiriedolwyr yn cynnal gwiriadau CRB ac mae buddiolwyr agored i niwed mewn perygl o ganlyniad, byddwn yn ystyried a oedd gofyniad neu hawl gyfreithiol i gynnal gwiriadau wrth lunio ein barn ynghylch a yw'r elusen yn cael ei rheoli'n briodol neu beidio.

Nid oes unrhyw weithdrefn archwilio cefndir gan yr elusen i sicrhau bod ymddiriedolwr neu aelod staff yn gymwys i weithredu yn y swydd y mae'n cael ei benodi iddi

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol clir i ofyn i ddarpar ymddiriedolwyr newydd i arwyddo datganiad o'u cymhwysedd i weithredu ond mae'n arfer gorau i wneud hyn. Mae datganiad enghreifftiol i'w weld ar ein gwefan.

Mae cyfyngiadau cyfreithiol ar bwy all fod yn ymddiriedolwr. Byddai pryder rheoleiddio difrifol gennym pe byddai ymddiriedolwyr wedi methu â gweithredu systemau i archwilio cefndir ymddiriedolwyr neu ddiogelu buddiolwyr sy'n agored i niwed.

Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod gweithdrefnau archwilio cefndir addas yn weithredol i staff a gwirfoddolwyr a allai gynnwys gwiriadau CRB lle y bo'n briodol (gweler gwybodaeth am wiriadau CRB uchod).

Mae buddiolwyr wedi cael eu cam-drin neu mae hyn yn cael ei amau

Disgwyliwn i ymddiriedolwyr roi gwybod i ni am hyn dim ond os yw'r buddiolwyr wedi cael eu cam-drin gan rywun sy'n gysylltiedig â'r elusen, ee ymddiriedolwr, aelod staff neu wirfoddolwr.

Bu'r elusen yn destun ymchwiliad troseddol, neu ymchwiliad gan reolydd neu asiantaeth arall; neu mae sancsiynau wedi cael eu gosod neu mae pryderon wedi cael eu codi gan reolydd neu asiantaeth arall (ee yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Ofsted)

Dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i ni os yw'r elusen wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad troseddol neu os yw rheolydd neu asiantaeth arall wedi gosod unrhyw sancsiwn ffurfiol arni. Os nad yw'r ymddiriedolwyr yn sicr pa 'bryderon' y dylid eu hadrodd i'r Comisiwn, dylent gyfeirio yn ôl i'r materion dim goddefgarwch fel man cychwyn. Gall ein timau gynghori ar sail achosion unigol.

Adrodd am ddigwyddiad

Cwestiynau y gallwn eu gofyn

Pan fyddwch yn adrodd am ddigwyddiad, byddwn yn gofyn am fanylion. Mae'n bosibl na fyddwch yn cael pob un ohonynt ond byddwch yn barod i ateb a darparu gwybodaeth am y digwyddiad. Po fwyaf o wybodaeth rydych yn ei rhoi, y cyflymaf y byddwn yn gallu ei hasesu a phenderfynu a oes mater i ni ei ystyried. Ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, byddai o gymorth pe byddech yn dweud wrthym:

- a yw'r digwyddiad wedi digwydd neu a fu honiadau/amheuon difrifol ei fod wedi digwydd;
- ble ddigwyddodd hyn a phwy sy'n ymwneud â'r digwyddiad, gan gynnwys ei swydd yn yr elusen;
- ydy'r unigolyn hwn yn ymwneud â'r elusen o hyd;
- pa effaith y mae'r digwyddiad wedi'i chael ar yr elusen a/neu ei buddiolwyr;
- pa gamau, os oes, sydd wedi cael eu cymryd ers i'r digwyddiad ddigwydd;
- a fu unrhyw gyhoeddusrwydd o ganlyniad i'r digwyddiad;
- ydy'r elusen wedi cynnal ei hymchwiliad ei hun i'r digwyddiad a beth fu'r canlyniad;
- ydy rheolydd neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith neu asiantaeth y llywodraeth arall yn gysylltiedig â'r digwyddiad a pha gamau y mae wedi'u cymryd, os o gwbl;
- a oeddech/ydych yn ymwybodol o'r darpariaethau statudol sy'n llywodraethu'r digwyddiad.

Beth fyddwn yn ei wneud nesaf?

Yn dilyn adroddiadau neu honiadau byddwn yn asesu amgylchiadau pob achos. Gall hyn olygu casglu gwybodaeth ychwanegol, profi unrhyw honiadau a chysylltu â rheolyddion eraill neu'r heddlu. Bydd y swyddog sy'n cynnal y gwerthusiad yn llunio barn am yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn defnyddio ein meini prawf asesu risg i benderfynu pa gamau sy'n briodol. Ni allwn ddweud yn bendant pa gamau y byddwn yn eu cymryd ar gyfer unrhyw fater arbennig, oherwydd bydd ein hymateb yn dibynnu ar yr elusen a'i gallu i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer gorau; y camau y mae'r ymddiriedolwyr eisoes wedi'u cymryd o bosibl i ddiogelu'r elusen; ac a ydym yn debygol o ychwanegu gwerth go iawn drwy ymyrryd. Gall y Comisiwn Elusennau nodi ymateb drwy ddweud:

- nid yw materion rheoleiddio yn codi, neu nid ydynt yn cyfiawnhau gweithredu gan y Comisiwn;
- mae materion rheoleiddio yn codi, ac yn debygol o gael eu datrys orau drwy gyngor a chymorth;
- mae materion rheoleiddio wedi codi yn y gorffennol ond mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach;
- yr heddlu neu asiantaeth arall sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r mater;
- mae pryder gennym, ond yn hytrach na gweithredu, byddwn yn monitro'r elusen drwy arolygu agosach dros gyfnod;
- mae'r materion sy'n codi yn ddigon difrifol neu gymhleth ac felly byddwn yn ystyried cychwyn ymchwiliad (dyma'r eithriad).

Byddem yn pwysleisio ein bod, yn gyffredinol, yn ceisio gweithio gyda chaniatâd yr ymddiriedolwyr i ddatrys pryderon difrifol. Ein prif bryder bob amser yw'r elusen a ffydd y cyhoedd mewn elusennau yn gyffredinol.

Yn ansicr o hyd?

Os oes unrhyw bryderon neu ymholiadau gennych ynghylch beth i'w adrodd neu sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a rowch, anfonwch e-bost at seriousincidentreporting@charitycommission.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0845 300 0218 a bydd un o'n hymgynghorwyr yn eich helpu chi.

NODIADAU

Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r
Comisiwn Elusennau
Blwch SP 1268
Lerpwl
L69 3AR

Ar gyfer pob ymholiad arall cysylltwch â ni yn
Comisiwn Elusennau Uniongyrchol
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Ffôn
0845 3000 218
0845 3000 197 (cyngor Gwasanaethau Ar-lein)

Ffôn testun/Minicom
0845 3000 219

E-bost
enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk

Gwe
www.charitycommission.gov.uk